**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Oblygiadau Ariannol y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)

Tachwedd 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol **www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8618
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Fin.Comm@wales.gsi.gov.uk

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Oblygiadau Ariannol y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)

Tachwedd 2009

## Aelodau'r Pwyllgor



**Angela Burns**
**Cadeirydd**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



**Mohammad Asghar**
Dwyrain De Cymru
Plaid Cymru



**Alun Davies**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur



**Christopher Franks**
Canol De Cymru
Plaid Cymru



**Ann Jones**
Dyffryn Clwyd
Llafur



**Huw Lewis**
Merthyr Tudful a Rhymni
Llafur



**Nick Ramsay**
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



**Joyce Watson**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur



**Kirsty Williams**
Brycheiniog a Sir Faesyfed
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID

### Adroddiad ar Fesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)

### Cefndir

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn nodi:

> *Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:*
>
> *gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

### Ystyriaeth

2. Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid Fesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru) yn ei gyfarfod ar 24 Medi 2009.

3. Cyflwynwyd y Mesur arfaethedig i'r Pwyllgor Cyllid gan Nerys Evans AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, ac atebodd gwestiynau gan Aelodau. Ystyriodd Aelodau hefyd yr ymatebion a gafwyd gan y Pwyllgor ar y Mesur yn ei ymgynghoriad ar y Mesur arfaethedig.

### Beth fyddai'r Mesur arfaethedig yn ei wneud

4. Diben y Mesur arfaethedig yw sicrhau bod y ffordd y mae awdurdodau lleol Cymru yn ymdrin â deunydd ailgylchu yn fwy eglur ac agored. Yn benodol, byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am y gyfran o ddeunydd ailgylchu o gartrefi sy'n cael ei brosesu y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac Ardal Masnach Rydd Ewrop (EFTA). Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai'r bwriad yw, o ganlyniad i'r wybodaeth hon, y bydd trigolion yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu sy'n agosach at darddle'r deunydd ailgylchu. Disgwylir hefyd y bydd cyhoeddi gwybodaeth yn arwain at fwy o ddiddordeb, ac felly mwy o gyfranogi, mewn ailgylchu.

5. Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau casglu gwastraff ac awdurdodau gwaredu gwastraff yng Nghymru i baratoi datganiad os, yn ystod

y flwyddyn dan sylw, eu bod yn cludo neu fel arall yn gwaredu gwastraff i'w adfer y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac EFTA. Rhaid i'r datganiad gynnwys rhywfaint o wybodaeth briodol am gyfanswm y gwastraff a gludwyd, faint o'r gwastraff a gludwyd a aeth drwy weithrediad adfer yn y pen draw, i ble y cafodd y gwastraff ei gludo a'r math o weithrediad adfer.

6. Rhaid i'r datganiad gael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod a rhaid iddo gynnwys gwahoddiad i'r cyhoedd wneud cyflwyniadau ysgrifenedig i'r awdurdod. Rhaid i'r awdurdod ystyried cyflwyniadau o'r fath wrth benderfynu ar drefniadau ar gyfer y dyfodol.

**Costau posibl**

7. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro (9.3) mai awdurdodau lleol yng Nghymru fydd yn gyfrifol am fwy neu lai'r holl gostau sy'n deillio o'r Mesur arfaethedig. Mae hefyd yn nodi (9.4) bod CLlLC wedi amcangyfrif y byddai hynny'n costio £700,000, a hynny ar sail cyflogi 1 aelod o staff amser llawn ym mhob awdurdod.

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi (9.5) bod yr amcangyfrif hwn yn amheus gan fod y Mesur arfaethedig yn cynnwys gofyniad am adroddiad blynyddol, felly disgwylir i'r gwaith gael ei grynhoi ar un adeg o'r flwyddyn, gyda diweddariadau misol. Mae'n egluro hefyd y gallai'r gofynion o ran adroddiadau gael eu cymhathu yn y gweithdrefnau sydd eisoes ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnig amcangyfrif ei hun.

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi (9.8) y byddai costau'n codi hefyd ar gyfer y cyrff a fyddai'n darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol, ond disgwylir i'r costau fod yn fach iawn.

**Tystiolaeth**

<u>Costau i awdurdodau lleol</u>

10. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd Nerys Evans AC wrth y Pwyllgor Cyllid (Cofnod y Trafodion 162) ei bod wedi cwestiynu dilysrwydd amcangyfrif CLlLC yn llwyr a dywedodd nad oedd yn cytuno arno o gwbl. Dywedodd ei bod wedi ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol gan mai hwn oedd yr unig ffigur a ddaeth i law. Dywedodd hefyd ei fod wedi'i seilio ar y drafft cyntaf o'r Mesur arfaethedig a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu'r wybodaeth hon ond ei bod wedi newid y Mesur arfaethedig ar ôl yr ymgynghoriad i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i gasglu'r wybodaeth yn unig.

11. Dywedodd Nerys Evans AC hefyd wrth y Pwyllgor Cyllid (Cofnod y Trafodion 198) fod partneriaeth yng Ngwlad yr Haf eisoes yn casglu a chyhoeddi'r wybodaeth hon a bod hyn wedi arwain at fanteision aruthrol wrth i bobl gymryd mwy o ran yn y broses. Fodd bynnag, nid oedd ganddi wybodaeth ynghylch y costau hyn. Dywedodd mewn llythyr dilynol (7 Hydref 2009) ei bod wedi cysylltu â'r bartneriaeth ond nad oedd wedi gallu cyfarfod â hi ar yr adeg honno. Fodd bynnag, ers hynny mae wedi dysgu bod yna ofyniad i ddarparu'r wybodaeth hon wedi'i gynnwys yng nghontractau contractwyr casglu a bod partneriaeth Gwlad yr Haf wedi gallu casglu'r wybodaeth hon heb lawer o anhawster. Dywedodd ei bod yn ceisio cael rhagor o wybodaeth ynghylch y prosesau a ddefnyddir i gael y wybodaeth hon ac y byddai'n ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid os a phan fydd yn cael rhagor o wybodaeth.

12. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi bod Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi awgrymu yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y Mesur (Cofnod y Trafodion para 69 8 Hydref 2009) y gallai'r ffigur fod tua £350,000.

<u>Costau i broseswyr gwastraff</u>

13. Mewn perthynas â'r costau i broseswyr gwastraff, dywedodd Nerys Evans AC (Cofnod y Trafodion 188) mai bach iawn fyddai'r rhain oherwydd bod y wybodaeth ganddynt eisoes i'w throsglwyddo i'r bobl berthnasol. Fodd bynnag, nid oedd wedi cael unrhyw wybodaeth yn uniongyrchol gan broseswyr gwastraff. Byddai wedi cynnwys gwybodaeth o'r fath yn ei hymgynghoriad ond nid oedd wedi cael unrhyw ymateb.

14. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid a oedd costau contractau'n debygol o gynyddu os oedd contractau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i broseswyr gwastraff nodi'r wybodaeth hon. Dywedodd Nerys Evans AC (Cofnod y Trafodion 213) fod hyn yn bosibl yn ei barn hi ond gan fod y wybodaeth eisoes ar gael, roedd yn amau hyn.

<u>Costau eraill</u>

15. Awgrymodd CLlLC hefyd mai cost debygol datblygu a gweithredu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r farchnad ailgylchu fyddai tua £100,000. Dywedodd Nerys Evans AC, (Cofnod y Trafodion 217) nad oedd yn derbyn y ddadl ac mai'r honiad oedd bod y cyhoedd yn eithaf anymwybodol o'r hyn sy'n digwydd.

16. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid a fyddai mwy o ymwybyddiaeth o ble y caiff deunydd gwastraff ei ailgylchu yn arwain at gynnydd yn y galw, ac yn ei dro yn arwain at fwy o gostau i awdurdodau lleol ailgylchu mwy o wastraff yn lleol. Nododd Nerys Evans AC (llythyr 7 Hydref) na fyddai hyn yn arwain at gostau oherwydd nid diben y Mesur arfaethedig yw atal gwaith i adfer deunyddiau dros y

môr os dyna'r dewis gorau o safbwynt yr amgylchedd. Yn hytrach, yr unig nod yw sicrhau bod gan y cyhoedd ragor o wybodaeth am gludo gwastraff i'w ailgylchu ar ôl iddo gael ei gasglu.

<u>Cyllid</u>

17. Nododd y Pwyllgor Cyllid hefyd y dystiolaeth a gafwyd gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, nad oes darpariaeth gyllidebol ar gael ar gyfer y gweithgaredd hwn ar hyn o bryd a byddai angen dod o hyd i'r arian o fentrau eraill. Fel y nodwyd yn flaenorol, dywedodd y Gweinidog y gallai hyn gostio tua £350,000. Yn ôl pob tebyg, pe bai'r Mesur arfaethedig yn dod yn gyfraith, byddai'n ofynnol i'r Llywodraeth dalu'r costau o dan gytundeb Jones-Essex.

**Trafodaeth**

18. Mae Rheol Sefydlog 23.18(vi) yn nodi, ar yr un pryd ag y bydd Aelod yn cyflwyno Mesur arfaethedig, rhaid hefyd gosod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo (ymhlith gofynion eraill):

> (vi) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:
> unrhyw gostau gweinyddol, costau cydymffurfio a chostau eraill y byddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn arwain atynt;
> dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r costau hynny godi; a
> lle y byddai'r costau'n syrthio;

19. Bydd y Mesur arfaethedig yn arwain at gostau i'r canlynol:

> awdurdodau lleol er mwyn bodloni gofynion gweinyddol y Mesur arfaethedig;
> cwmnïau preifat i gyflwyno gwybodaeth.

20. Ceir awgrymiadau hefyd y byddai awdurdodau lleol yn ysgwyddo mwy o gostau pe bai'r Mesur arfaethedig hwn yn arwain at gynyddu swm y deunydd i'w ailgylchu a hefyd oherwydd efallai y bydd yn ofynnol datblygu a gweithredu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ailgylchu. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn derbyn, er y gallai'r costau hyn gynyddu, ni fyddai hyn yn digwydd yn uniongyrchol o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig a byddai darparu amcangyfrifon o'r costau hyn yn y Memorandwm Esboniadol y tu allan i gwmpas Rheol Sefydlog 23.18(vi).

21. Dywedodd CLlLC y gallai'r costau sy'n deillio o (a) gyfateb i £700,000 y flwyddyn. Dywed Nerys Evans AC nad yw'n derbyn y ffigur hwn. Er hynny, penderfynodd ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol ac nid yw wedi cynnig ffigur amgen na rhoi unrhyw reswm dros anghytuno â barn CLlLC. Mae Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi

awgrymu ffigur gwell o tua £350,000. Er bod y Pwyllgor Cyllid yn tueddu i gytuno â'r farn bod ffigur CLlLC yn rhy uchel, nid yw'n gallu awgrymu swm ei hun. Mae wedi siomi nad yw Nerys Evans AC wedi ymchwilio mwy i'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael ac nad yw o leiaf wedi cynnig ei hasesiad ei hun o nifer yr oriau gwaith, neu'r hyn sy'n cyfateb i swydd amser llawn, a fyddai'n ofynnol o fewn awdurdod lleol. Nid yw hyd yn oed wedi cynnig unrhyw dystiolaeth am ei hasesiad ei hun ar gyfer y costau sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 23.18(vi).

22. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi siomi'n arbennig nad yw Nerys Evans AC wedi gwneud mwy o ymdrech i ofyn am y wybodaeth a oedd ar gael gan bartneriaeth Gwlad yr Haf a fyddai wedi rhoi safbwynt amgen defnyddiol ar y costau hyn. Fodd bynnag, mae'n nodi ei bod yn dal yn ceisio cael y wybodaeth hon a'i bod yn gobeithio y bydd yn llwyddiannus ac yn gallu cyflwyno'r manylion i'r Pwyllgor Cyllid cyn hir.

23. Nododd CLlLC hefyd ei fod yn credu y byddai datblygu a gweithredu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r farchnad ailgylchu yn costio tua £100,000. Dywedodd Nerys Evans AC nad yw'n cytuno ar hyn ond nid yw wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth i ategu'r safbwynt hwn. Nid yw'r Pwyllgor Cyllid yn credu ei bod yn dderbyniol anwybyddu tystiolaeth y gallai fod cost yn gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig.

24. Ceir hyd yn oed lai o wybodaeth mewn perthynas â: (b) y costau y bydd yn ofynnol i gwmnïau preifat eu talu. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn credu bod hwn yn ofyniad hanfodol o unrhyw gynnig deddfwriaethol. Er ei fod yn nodi na chyflwynwyd unrhyw beth i wrth-ddweud hyn yn ymgynghoriad Nerys Evans AC, nid yw'n teimlo y dylai fod yn rhaid i'r Cynulliad ddibynnu ar dystiolaeth 'negyddol' i ategu'r farn na fydd yn rhaid i gwmnïau preifat dalu swm sylweddol o arian. Ni fyddai wedi bod yn anodd cysylltu â rhai o'r proseswyr gwastraff neu efallai sefydliad masnach priodol er mwyn cael rhywfaint o dystiolaeth annibynnol am hyn.

25. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi bod rhywfaint o ansicrwydd mewn perthynas â chontractau presennol y mae'n bosibl nad ydynt yn cynnwys unrhyw ofyniad i broseswyr gwastraff gasglu na darparu'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, mae'n tybio y bydd contractau newydd yn cynnwys gofyniad o'r fath, ac efallai y bydd hyn yn arwain at broseswyr gwastraff yn ceisio pasio'r gost ymlaen i awdurdodau lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn arbennig o berthnasol i'r asesiad ariannol.

26. Yn olaf, mae'r Pwyllgor Cyllid yn deall bod y Llywydd, o'i asesiad o'r Mesur pan gafodd ei gyflwyno, wedi rhoi barn gychwynnol nad oes angen penderfyniad ariannol ar y Mesur arfaethedig o dan Reol Sefydlog 23.79. Er bod y costau sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig hwn yn dal yn ansicr, mae'r ffigurau a nodwyd hyd yn hyn yn awgrymu y gallent fod yn sylweddol. O gofio hefyd mai'r

Llywodraeth, ac felly'r Gronfa Gyfunol, fydd yn talu am yr holl gostau neu'r rhan fwyaf ohonynt yn y pen draw, mae'r pwyllgor Cyllid yn gofyn i'r Llywydd ystyried y materion hyn ymhellach cyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch yr angen am benderfyniad ariannol.

**Casgliad**

27. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi mai dim ond gwybodaeth gyfyngedig sydd wedi'i rhoi ar gostau'r Mesur arfaethedig hwn ac mewn nifer o feysydd, mae'r Mesur arfaethedig yn dibynnu'n llwyr ar honiadau'r Aelod sy'n gyfrifol amdano. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'i siomi'n arbennig na chysylltwyd â rhai ffynonellau eithaf amlwg, fel partneriaeth Gwlad yr Haf a chwmnïau contractio neu eu cymdeithas masnach, a lle bod cais wedi'i wneud am ragor o wybodaeth, nid yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig wedi aros am ymateb. Ymddengys y rhain i fod yn enghreifftiau o esgeulustod difrifol.

28. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn pryderu y bydd pobl yn beirniadu'r Cynulliad drwy awgrymu nad yw'n cymryd yr angen am asesiadau ariannol o ddifrif, a hynny oherwydd nad oes ymdrech wedi'i wneud i geisio cael rhagor o wybodaeth, drwy ffyrdd cymharol hawdd, i gefnogi'r Mesur arfaethedig. **Felly, mae'r Pwyllgor Cyllid yn annog yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig i ymchwilio i'r ffynonellau gwybodaeth hyn a chyflwyno gwell asesiad o'r costau i'r Pwyllgor.**

**29. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn argymell na chaiff dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ei gyflwyno nes bod y Pwyllgor a, thrwy hynny, Aelodau Cynulliad yn gyffredinol, wedi ystyried y gwaith hwn.**

**30. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn gofyn i'r Llywydd ystyried y materion hyn ymhellach cyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch yr angen am benderfyniad ariannol.**

**Angela Burns**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**